ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llesiant Cymru 2023:
## Ethnigrwydd a Llesiant









OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48306, ISBN Digidol 978-1-83577-093-1

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys


Rhagair gan y Prif Ystadegydd ..... 3

Nodyn ar derminoleg ..... 4

Prif Bwyntiau ..... 5

Cymru Lewyrchus ..... 7

Cyrhaeddiad mewn ysgolion ac addysg bellach ..... 7

Lefelau cymwysterau ..... 11

Tlodi ac amddifadedd ..... 16

Gwaith ac enillion teg ..... 17

Dulliau Teithio ..... 23

Ffynonellau data a darllen pellach ..... 23

Cymru Iachach ..... 25

Iechyd babanod a mamau ..... 25

Arferion da ar gyfer ymddygiad iach mewn oedolion ..... 28

Arferion da ar gyfer ymddygiad iach mewn plant ..... 30

Canlyniadau iechyd ..... 32

Iechyd meddwl a llesiant ymysg oedolion ..... 33

Iechyd meddwl a llesiant plant ..... 35

Disgwyliad oes ac achosion marwolaeth ..... 37

Ffynonellau data a darllen pellach ..... 39

Cymru o Gymunedau Cydlynus ..... 40

Cydlyniant cymunedol ..... 40

Teimlo'n ddiogel ..... 43

Bodlonrwydd ar yr ardal leol ..... 44

Dylanwadu ar benderfyniadau lleol ..... 45

Gwirfoddoli ..... 46

Unigrwydd ..... 47

Digartrefedd ..... 50

Dioddefwyr Troseddau ..... 50

Ffynonellau data a darllen pellach ..... 51

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ..... 52

Celfyddydau, diwylliant a threftadaeth ..... 52

Cyfranogiad plant mewn chwaraeon ..... 55

Cyfranogiad oedolion mewn chwaraeon ........ 57
Y Gymraeg ........ 58
Ffynonellau data a darllen pellach ........ 61
Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang ........ 62
Newid yn yr hinsawdd ........ 62
Tlodi Bwyd ........ 63
Darpariaeth brechu ........ 65
Cosbi plant yn gorfforol ........ 66
Ffynonellau data a darllen pellach ........ 67

# Rhagair gan y Prif Ystadegydd

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cyhoeddi adroddiad atodol ochr yn ochr ag adroddiad rheolaidd Llesiant Cymru er mwyn edrych yn fanylach ar agwedd ar lesiant. Mae adroddiad atodol eleni yn canolbwyntio ar ethnigrwydd a llesiant.

Roedd data o Gyfrifiad 2021 yn dangos bod Cymru'n dod yn fwy amrywiol o ran ethnigrwydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud Cymru yn genedl wrth-hiliol, fel y nodir yn ei Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu, roedd argaeledd data a thystiolaeth yn thema a oedd yn codi dro ar ôl tro. Nod yr adroddiad atodol hwn felly yw dwyn ynghyd y dystiolaeth bresennol er mwyn archwilio cynnydd tuag at y nodau llesiant ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig. Mae adroddiadau ystadegol fel yr un hwn yn un rhan o'r sylfaen dystiolaeth ac ochr yn ochr â ffynonellau tystiolaeth eraill (gan gynnwys profiad bywyd) bydd yr adroddiad hwn, gobeithio, yn adnodd defnyddiol i lywio'r gwaith o werthuso'r cynllun yn y tymor hwy.

Mae'r adroddiad atodol hwn wedi'i strwythuro ychydig yn wahanol i brif adroddiad Llesiant Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn ei gyfanrwydd yn ymwneud â chynnydd tuag at y nod o gael Cymru sy'n Fwy Cyfartal: "cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau". Felly, nid oes pennod benodol ar y nod hwn. Nid oes pennod ychwaith ar Gymru Gydnerth gan fod y dangosyddion cenedlaethol ar gyfer y nod hwn yn seiliedig ar yr amgylchedd ffisegol yn hytrach na phobl. Felly, nid oes dim o'r data dangosyddion cenedlaethol sy'n berthnasol i'r nod hwn ar gael yn ôl ethnigrwydd. Yn hytrach, mae'r asesiad yn yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gynnydd tuag at nodau sy'n ymwneud â ffyniant, iechyd, cymunedau, diwylliant a chyfrifoldeb byd-eang.

Mae'r adroddiad hwn yn mynd ymhellach nag erioed wrth gyflwyno data ar ddangosyddion llesiant cenedlaethol yn ôl ethnigrwydd, ond nid yw'n ddarlun cyson ar draws pob un o'r 50 dangosydd. Ar gyfer rhai dangosyddion, mae'n bosibl darparu gwybodaeth gymharol fanwl ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig. Ar gyfer dangosyddion eraill, mae data wedi'i gyfyngu i ddau neu dri grŵp ethnig lefel uchel yn unig, a fydd yn debygol o guddio gwahaniaethau rhwng grwpiau yn y categorïau lefel uchel hyn. Nid oes dadansoddiad o ethnigrwydd o gwbl ar gyfer rhai dangosyddion. Yn ogystal, mae meintiau bychan samplau arolwg yn aml yn golygu

nad yw’n bosibl canfod gwahaniaethau gwirioneddol rhwng grwpiau ethnig. Nid yw cydnabod y cyfyngiadau hyn yn ddigon. Rhaid i ni ystyried sut gallwn barhau i wella’r darlun hwn. Mae’r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil, a sefydlwyd yn 2022, yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o arwain ar argaeledd ac ansawdd gwell y dystiolaeth sy’n ymwneud â hil ac ethnigrwydd, fel y nodir yn ei strategaeth a’i rhestr o feysydd gwaith blaenoriaeth. Mae hyn yn cynnwys ymchwil i'r hyn sy'n gweithio ar gyfer mynd i'r afael â rhwystrau sy'n gysylltiedig â chasglu data ar ethnigrwydd.

## Nodyn ar derminoleg

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cydnabod nad oes un term y gallai pawb gytuno arno i ddisgrifio amrywiaeth grwpiau o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Wrth lunio’r adroddiad hwn, rydym hefyd wedi dod ar draws diffyg cysondeb yn y derminoleg a ddefnyddir ymhlith yr ystod eang o ffynonellau data rydym wedi’u defnyddio. Rydym wedi ceisio defnyddio’r un iaith yn yr adroddiad hwn ag a ddefnyddiwyd yn y casgliad data gwreiddiol, fel ein bod yn adlewyrchu cystal ag y gallwn sut bydd pobl wedi disgrifio eu hunain yn yr ystadegau hynny. Mae hyn yn golygu bod enwau’r grwpiau ethnig a ddefnyddir drwy gydol yr adroddiad hwn yn amrywio o un ffynhonnell i’r llall.

# Prif Bwyntiau

- Yn 2021/22, ehangodd y bwlch rhwng disgyblion Gwyn Prydeinig a disgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar raddfeydd A* - i A ac A* - i C, gyda disgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael canlyniadau gwell na disgyblion Gwyn Prydeinig. Roedd y bwlch ar gyfer A* a G yn fach iawn.
- Yn 2022, roedd cyfran debyg iawn o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru a nododd eu hethnigrwydd fel Gwyn (gan gynnwys lleiafrifoedd Gwyn) neu Ddu, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol yn gymwys i lefel 3 neu uwch (65.6% o'i gymharu â 65.7%).
- Roedd canran yr oedolion â dau neu fwy o ymddygiadau iach ar ei huchaf ymhlith y rhai o grŵp ethnig Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (97%) ac isaf ymhlith y rhai o grŵp ethnig Gwyn, Cymysg neu Aml-ethnig (90% ac 88% yn y drefn honno, er o ganlyniad i ansicrwydd ym maint y sampl, roedd y rhain ond yn arwyddocaol yn ystadegol o'u cymharu â'r rhai o grŵp ethnig Gwyn).
- Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn sgôr gyffredinol Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin (WEMWBS) rhwng y grwpiau cyfun Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol, Gwyn Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir Gwyn arall, a Gwyn Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon.
- Cytunodd canran is o bobl o'r grŵp Gwyddelod Gwyn, Sipsiwn, Teithwyr Gwyddelig neu gefndir Gwyn arall eu bod yn perthyn i'w hardal leol o'i gymharu â phobl o'r grŵp Gwyn Cymreig, Saesneg, Albanaidd neu Ogledd Iwerddon. Nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng y grŵp Pobl Dduon, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig a'r ddau grŵp ethnig arall, ac eithrio yn 2021-22 pan oedd y ganran ar gyfer y grŵp hwnnw yn sylweddol is nag ar gyfer y grŵp Gwyn Cymreig, Saesneg, Albanaidd neu Ogledd Iwerddon
- Yn 2018-19 a 2021-22, roedd canran y bobl sy'n cytuno â'r datganiad y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol yn sylweddol uwch ar gyfer y Gwyddelod Gwyn, Sipsiwn, Teithwyr Gwyddelig neu grŵp cefndir gwyn arall, ac ar gyfer grwpiau Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig o'i gymharu â'r grŵp Gwyn Cymreig, Saesneg, Albanaidd neu Ogledd Iwerddon.
- Yn y flwyddyn ddiweddaraf, oedolion Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol oedd â'r gyfradd uchaf o ran cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd, sef 47%.

- Roedd canran y bobl a oedd yn gallu siarad Cymraeg wedi gostwng yn y grwpiau Gwyn a Chymysg neu Aml-ethnig. Mewn cyferbyniad, bu cynnydd canrannol bach yn y grŵp ethnig Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig; yn y grŵp ethnig Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd; ac yn y grŵp ethnig Arall.
- Roedd pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol cyfun, Gwyn (Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir Gwyn arall) a Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol yn fwy tebygol o anghytuno bod angen smacio plentyn weithiau (66%). Mae hyn yn cymharu â 58% o bobl o'r grŵp ethnig Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon). Nid oedd gwahaniaeth sylweddol rhwng y grwpiau ethnig lleiafrifol cyfun a'r grŵp ethnig Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon) wrth edrych ar y ganran a oedd yn cytuno bod angen.

# Cymru Lewyrchus

Awduron: Jonathan Price a Sue Leake

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, garbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

# Cyrhaeddiad mewn ysgolion ac addysg bellach

Mae plant o rai grwpiau ethnig yn parhau i gyflawni'n well ar gyfartaledd yn yr ysgol o'u cymharu ag eraill, gyda chyfrannau uwch o ddisgyblion TGAU Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael graddau A* - A ac A* - C yn ystod Haf 2022 na disgyblion Gwyn Prydeinig.

- Yn 2021/22, ehangodd y bwlch rhwng disgyblion Gwyn Prydeinig a disgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a oedd wedi cael graddau A* - i A ac A* - i C, gyda disgyblion Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn cael canlyniadau gwell na disgyblion Gwyn Prydeinig. Roedd y bwlch ar gyfer A* a G yn fach iawn.

- Disgyblion o gefndir Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig sy'n cyflawni'r canlyniadau uchaf ar lefel TGAU, gyda 39.4% o'r disgyblion yn cael graddau A* i A

- Yn y grŵp ethnig lefel uchel hwn, disgyblion o gefndir Indiaidd sy'n cyflawni'r canlyniadau uchaf ar lefel TGAU, gyda 57.8% o'r disgyblion yn cael graddau A* i A.

- Er bod cyfran lai o ddisgyblion o gefndir Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig neu Ddu Cymreig yn cael graddau A* i C, mae'r gwahaniaeth rhwng y disgyblion hyn a disgyblion o gefndiroedd ethnig eraill wedi lleihau yn 2021/22.

## Ffigur 1.1: Canran y myfyrwyr TGAU Blwyddyn 11 sy’n cael ystod graddau yn ôl grŵp ethnig eang a blwyddyn academaidd, Cymru, 2018/19 a 2021/22 [Nodyn 1]



Disgrifiad o Ffigur 1.1: Tair siart far, un yr un ar gyfer graddau A* i A, A* i C, ac A* i G, yn dangos bod disgyblion Blwyddyn 11 a gafodd raddau TGAU ar draws pob cefndir ethnig wedi cael graddau uwch yn 2021/22 nag yn 2018/19, ond roedd hyn yn llai gwir ar gyfer disgyblion Gwyn. Disgyblion o gefndiroedd Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig sydd â'r canlyniadau uchaf ar lefel TGAU.

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru

[Nodyn 1] Nid yw'n cynnwys cymwysterau sy'n defnyddio'r system raddio 9-1 a ddefnyddir yn Lloegr.

Ar lefel Safon Uwch, mae canlyniadau blwyddyn academaidd 2021/22 yn dangos bod dysgwyr o bob cefndir wedi cael graddau uwch yn 2021/22 nag yn 2018/19, ond roedd hyn yn llai gwir am ddysgwyr o gefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig neu Ddu Cymreig. Dysgwyr o gefndiroedd Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Asiaidd Cymreig sydd â'r canlyniadau uchaf.

**Ffigur 1.2: Cyflawniadau dwy flynedd ar lefel Safon Uwch yn ôl grŵp ethnig eang a blwyddyn academaidd, Cymru, Awst 2021 i Orffennaf 2022 [Nodyn 1]**



Disgrifiad o Ffigur 1.2: Siart far yn dangos bod dysgwyr o bob cefndir wedi cael graddau uwch yn 2021/22 nag yn 2018/19, ond roedd hyn yn llai gwir am ddysgwyr o gefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig neu Ddu Cymreig. Dysgwyr o gefndiroedd Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig gafodd y canlyniadau uchaf.

Ffynhonnell: Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 (cyflawniad) Awst 2021 i Orffennaf 2022.

[Nodyn 1] yn cynnwys canlyniadau ar gyfer dysgwyr mewn dosbarthiadau chwech a cholegau sy'n dilyn cyrsiau mewn addysg gyffredinol (Safon Uwch).

Mae bwlch anghydraddoldeb mawr wedi agor ar gyfer dysgwyr Safon Uwch o gefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig neu Ddu Cymreig. Aeth 58% o ddysgwyr Safon Uwch ymlaen i gael o leiaf tair 3 C yn 2021/22, ond dim ond 45% o ddysgwyr o gefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig neu Ddu Cymreig wnaeth hynny. Roedd y bwlch hwn yn llawer llai cyn y pandemig yn 2018/19. Ar draws pob cefndir ethnig, roedd canran y dysgwyr a oedd yn cael o leiaf dair gradd C 16 pwynt canran yn uwch na chyn y pandemig. Roedd pum pwynt canran yn uwch ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Prydeinig neu Ddu Cymreig.

Mae data cryno ar absenoldeb o'r ysgol yn ystod pandemig COVID-19 yn dangos bod pob prif grŵp ethnig wedi gweld cynnydd mewn cyfraddau absenoldeb yn ystod y pandemig, ond bod patrymau absenoldeb cyn y pandemig yn ôl grŵp ethnig yn parhau. Roedd absenoldeb ar ei uchaf ymhlith disgyblion Sipsi, Roma a Theithwyr ac ar ei isaf ymhlith disgyblion o gefndir Tsieineaidd.

## Lefelau cymwysterau

Yn 2022, dywedodd tua 8.3% o'r holl oedolion o oedran gweithio yng Nghymru (18-64 oed) nad oedd ganddynt gymwysterau ac roedd gan 43.3% gymwysterau lefel 4 o leiaf (sy'n cyfateb i radd neu brentisiaeth uwch). Nid yw ffynhonnell y data hwn (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth) yn caniatáu dadansoddi yn ôl grŵp ethnig manwl ond mae'n darparu gwybodaeth ar gyfer grwpiau ethnig eang iawn. Mae'r

canlyniadau'n dangos bod oedolion o oedran gweithio o gymunedau ethnig lleiafrifol (ac eithrio lleiafrifoedd Gwyn) yn fwy tebygol o fod â chymwysterau ar lefel 4 neu uwch (ac yn benodol ar lefel 7 neu 8, graddau uwch) nag oedolion o oedran gweithio Gwyn ond hefyd yn fwy tebygol o fod heb gymwysterau.

Mae dwy garreg filltir genedlaethol sy'n ymwneud â'r cymwysterau uchaf. Un o'r cerrig milltir cenedlaethol ar gymwysterau yw y bydd 75% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru yn gymwys i lefel 3 neu uwch erbyn 2050. Mae'r garreg filltir genedlaethol arall ar gymwysterau yn ymwneud â chanran yr oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau.

Yn 2022, roedd cyfran debyg iawn o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru a nododd eu hethnigrwydd fel Gwyn (gan gynnwys lleiafrifoedd Gwyn) neu Ddu, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol yn gymwys i lefel 3 neu uwch (65.6% o'i gymharu â 65.7%).

Gall proffiliau oedran gwahanol grwpiau ethnig effeithio ar y patrwm hwn. Mae oedolion hŷn yn fwy tebygol o fod heb gymwysterau nag oedolion iau ac mae proffil oedran llawer o grwpiau ethnig lleiafrifol yn iau na'r boblogaeth Wyn (gan gynnwys lleiafrifoedd Gwyn).

### Ffigur 1.3: Lefel uchaf y cymhwyster a ddelir gan oedolion o oedran gweithio (18 i 64 oed), yn ôl grŵp ethnig, 2022 [Nodyn 1]



Disgrifiad o Ffigur 1.3:  Mae oedolion o oedran gweithio o gymunedau ethnig lleiafrifol (heb gynnwys lleiafrifoedd Gwyn) yn fwy tebygol o feddu ar gymwysterau ar lefelau 7 ac 8 nag oedolion Gwyn (gan gynnwys lleiafrifoedd Gwyn) o oedran gweithio. Ond maent hefyd yn fwy tebygol o fod heb gymwysterau a chael cymwysterau o dan lefel 2.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o’r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

[Nodyn 1] Mae pobl mewn addysg amser llawn wedi’u heithrio er mwyn cael gwared ar effaith myfyrwyr rhyngwladol mewn addysg uwch yng Nghymru a thrwy hynny, cynyddu’r gyfran sydd â chymwysterau Lefel 3.

Roedd Cyfrifiad 2021 yn gofyn i drigolion arferol Cymru sy’n 16 oed neu’n hŷn gofnodi’r cymwysterau roeddent wedi’u hennill. Defnyddiwyd hwn i gyfrifo’r lefel uchaf o gymhwyster. Gall y cyfrifiad ddarparu dadansoddiad ar gyfer grwpiau ethnig mwy manwl. Fodd bynnag, nid oes modd cymharu ystadegau’r cyfrifiad ar lefelau cymwysterau â rhai’r Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth. Yn ogystal â’r gwahanol ddulliau casglu data, mae ystadegau’r cyfrifiad yn seiliedig ar yr holl breswylwyr arferol sy’n 16 oed a hŷn, ac mae’r rheini o’r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn seiliedig ar oedolion o oedran gweithio (18 i 64 oed).

Yn 2021 pobl yn y grŵp ethnig lefel uchel “Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig” oedd fwyaf tebygol o ddweud bod ganddynt gymhwyster Lefel 4 neu uwch (43.9%) a’r rheini yn y grŵp ethnig “Gwyn” lefel uchel oedd y lleiaf tebygol (31.0%).

Pobl yn y “grŵp ethnig arall” lefel uchel oedd y mwyaf tebygol o beidio â meddu ar unrhyw gymwysterau (24.7%), gyda’r rhai yn y grŵp “Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Affricanaidd neu Garibïaidd” lefel uchel (14.5%) a “grwpiau ethnig cymysg neu aml-ethnig” (15.2%) y lleiaf tebygol.

Yn y grwpiau ethnig mwy manwl, y bobl a oedd yn ystyried eu hunain yn y categori “Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig” oedd y mwyaf tebygol o beidio â meddu ar gymwysterau (58.8%) a’r lleiaf tebygol o feddu ar gymwysterau Lefel 4 neu uwch (11.5%).

Nid oedd gan ychydig o dan draean o’r bobl a oedd yn ystyried eu hunain yn y categori “Gwyn: Roma” (31.8%) ac “Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig: Bangladeshaidd” (30.9%) unrhyw gymwysterau.

Pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Indiaidd” (61.9%), “Arabaidd” (46.3%) neu “Ddu, Du Cymreig neu Ddu Prydeinig: Affricanaidd” (46.4%), oedd y mwyaf tebygol o feddu ar gymwysterau Lefel 4 neu uwch. Roedd grwpiau ethnig eraill â lefelau uchel o gymwysterau Lefel 4 yn cynnwys “Gwyn: Gwyddelig” (44.3%), “Asiaidd Arall” (44.3%) ac “Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig: Tsieineaidd" (42.9%).

### Ffigur 1.4: Grwpiau ethnig yn ôl lefel cymhwyster uchaf, ar gyfer y rhai 16 oed a hŷn, Cymru, 2021 [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 1.4: Siart far sy'n dangos cyfran y preswylwyr arferol yng Nghymru sy'n 16 oed neu'n hŷn ym mhob grŵp ethnig a oedd yn perthyn i bob un o'r pedwar categori a oedd yn cynrychioli lefel eu cymhwyster uchaf. Pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn y categori "Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig" oedd y mwyaf tebygol o

beidio â meddu ar gymwysterau o gwbl a’r lleiaf tebygol o feddu ar gymwysterau Lefel 4 neu uwch. Pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Indiaidd”, “Arabaidd” neu’n “Ddu, Du Cymreig, Du Prydeinig: Affricanaidd” oedd y mwyaf tebygol o feddu ar gymwysterau Lefel 4 neu uwch.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

[Nodyn 1] Mae Prentisiaethau wedi’u cynnwys yn y categori “Arall”.

## Tlodi ac amddifadedd

Roedd aelwydydd lle’r oedd y penteulu yn perthyn i grŵp Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol na’r rheini sydd â phenteulu o grŵp ethnig Gwyn.

Ar gyfer y cyfnod 2017-18 i 2021-22, roedd 40% o debygolrwydd y byddai pobl lle mae’r penteulu yn dod o grŵp Du, Asiaidd neu ethnig leiafrifol yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Mae hyn yn cymharu â thebygolrwydd o 22% ar gyfer aelwydydd lle mae’r penteulu yn dod o grŵp ethnig Gwyn. Fodd bynnag, oherwydd bod gan y mwyafrif helaeth o aelwydydd yng Nghymru benteulu sy’n perthyn i grŵp ethnig Gwyn, roedd y rhan fwyaf o bobl (96%) a oedd yn byw mewn tlodi incwm cymharol yn dod o aelwydydd o’r fath.

Dywedodd cyfran uwch o oedolion o grŵp Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol eu bod mewn amddifadedd materol (hynny yw, ddim yn gallu fforddio pethau sylfaenol fel cadw’r tŷ’n gynnes) (25%) yn 2022-23 nag oedolion Gwyn (15%). Mae oedolion o grwpiau ethnig lleiafrifol hefyd yn llai tebygol o ddweud eu bod yn gallu talu’r holl filiau ac ymrwymiadau heb unrhyw anawsterau (54%) o’i gymharu ag oedolion Gwyn (63%).

# Gwaith ac enillion teg

## Gweithgarwch economaidd

Yn 2022-23, roedd y gyfradd cyflogaeth ar gyfer pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol 16 i 64 oed yng Nghymru yn 71.4% - cynnydd o 7.0 pwynt canran ers y flwyddyn flaenorol. Y gyfradd cyflogaeth ar gyfer pobl Wyn oedd 73.1% - gostyngiad o 0.9 pwynt canran dros y flwyddyn. Sylwch yn yr arolwg o'r Llafurlu (ffynhonnell y data hwn) gofynnir i ymatebwyr beth, yn eu barn nhw, yw eu tarddiad ethnig. Mae'r categori Gwyn yn cynnwys Gwyn – Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig ac unrhyw gefndir Gwyn arall gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig.

### Ffigur 1.5: Cyfradd cyflogaeth pobl rhwng 16 a 64 oed, yn ôl ethnigrwydd, y flwyddyn sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2012 i fis Mawrth 2023 [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigur 1.5: Siart linell yn dangos bod y gyfradd cyflogaeth ar gyfer pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol 16 i 64 oed a phobl Wyn 16 i 64 oed wedi cynyddu'n gyffredinol ers y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2011. Dros y tair blynedd diwethaf (ers dechrau pandemig y coronafeirws), mae'r gyfradd wedi bod ychydig yn fwy anwadal ar gyfer y ddau grŵp. Mae'r gyfradd Cyflogaeth ar gyfer pobl Wyn wedi aros yn uwch na'r gyfradd ar gyfer pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ers y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2012.

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth, Ebrill 2022 - Mawrth 2023, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

[Nodyn 1] Nid yw echelin y siart yn cychwyn ar sero.

Roedd y gyfradd diweithdra ar gyfer pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol 16 oed a hŷn yng Nghymru yn 6.6% - mwy na dwbl y gyfradd ar gyfer pobl Wyn, ond gostyngiad o 2.8 pwynt canran ers y flwyddyn flaenorol. Y gyfradd diweithdra ar gyfer pobl Wyn oedd 3.1%, gostyngiad o 0.4 pwynt canran dros y flwyddyn. Sylwch fod y data ar y gyfradd diweithdra ar gyfer pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn dangos ansefydlogrwydd arbennig o uchel oherwydd maint sampl bach.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae’r gyfradd cyflogaeth ar gyfer pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi cynyddu ar gyfradd uwch nag ar gyfer pobl Wyn ac mae’r gyfradd diweithdra wedi gostwng mwy.

Roedd Cyfrifiad 2021 yn gofyn cwestiynau i breswylwyr arferol 16 oed a hŷn am eu statws gweithgarwch economaidd a gall roi syniad o wahaniaethau mewn gweithgarwch economaidd ar gyfer grwpiau ethnig mwy manwl ar yr adeg honno. Sylwch, fodd bynnag, y cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19). O ganlyniad i’r pandemig, roedd Llywodraeth y DU wedi cyflwyno mesurau ffyrlo i sicrhau bod y rheini nad oeddent yn gallu gweithio yn gallu aros mewn cyflogaeth. Wrth lenwi ffurflen Cyfrifiad 2021, cynghorwyd pobl ar ffyrlo i ddweud eu bod i ffwrdd o’r gwaith dros dro, yn yr un modd â’r rheini a oedd dan gwarantin neu’n hunanynysu oherwydd y pandemig. Gallai nifer y bobl a oedd yn economaidd anweithgar fod yn uwch na’r disgwyl gan ei bod yn bosibl bod rhai pobl ar ffyrlo wedi nodi eu bod yn economaidd anweithgar, yn hytrach nag yn absennol o’r gwaith dros dro. Mae rhai gwahaniaethau rhwng data Cyfrifiad 2021 ar gyflogaeth a data sy’n seiliedig ar yr Arolwg o’r Llafurlu. Mae’r gwahaniaethau hyn yn cael eu hegluro yn yr erthygl **Cymharu Cyfrifiad 2021 ac amcangyfrifon Arolwg o’r Llafurlu o’r farchnad lafur yng Nghymru a Lloegr**, a baratowyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Yn y Cyfrifiad, y grŵp ethnig lefel uchel “Gwyn” oedd â’r gyfran uchaf o breswylwyr arferol rhwng 16 a 64 oed a oedd yn weithwyr (59.8%), ac yna “Grwpiau ethnig cymysg neu aml-ethnig” (49.6%).

Roedd statws hunangyflogedig ar ei uchaf ymhlith pobl yn y grŵp ethnig lefel uchel “Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig” (10.2%) ac isaf ymhlith pobl yn y grŵp ethnig “Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Affricanaidd neu Garibïaidd” (7.5%).

Pobl yn y grŵp ethnig lefel uchel “Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Affricanaidd neu Garibïaidd” oedd y mwyaf tebygol o fod yn ddi-waith (9.9%), a phobl yn y grŵp ethnig lefel uchel “Gwyn” oedd y lleiaf tebygol (3.9%).

Pobl (16 i 64 oed) yn y “Grŵp ethnig arall” lefel uchel oedd y mwyaf tebygol o fod yn economaidd anweithgar (46.5%) a phobl yn y grŵp “Gwyn” lefel uchel oedd y lleiaf tebygol (26.6%).

Roedd amrywiaeth eang mewn statws gweithwyr rhwng grwpiau ethnig unigol. Y grwpiau ethnig â’r ganran uchaf o weithwyr oedd “Gwyn Arall” (64.7%), “Gwyn: Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig” (59.6%), “Gwyn: Gwyddelig” (59.5%) ac “Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig: Indiaidd” (56.5%). Y grwpiau ethnig â’r ganran isaf o weithwyr oedd “Gwyn: Sipsi a Theithiwr Gwyddelig” (22.4%) ac “Arabaidd” (28.5%).

Roedd llai o amrywiaeth mewn statws gweithwyr rhwng grwpiau ethnig. Y grwpiau â’r ganran uchaf o unigolion hunangyflogedig oedd “Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig: Pacistanaidd” (13.2%), “Gwyn: Sipsi a Theithiwr Gwyddelig” (11.5%) ac “Unrhyw grŵp ethnig arall” (11.4%). Y grwpiau â’r ganran isaf o unigolion hunangyflogedig oedd “Arabaidd” (6.0%), “Du, Du Cymreig, Du Prydeinig: Affricanaidd” (7.1%) ac “Ethnigrwydd cymysg neu aml-ethnigrwydd: Gwyn a Du Affricanaidd” (7.2%).

Pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Ddu, Du Cymreig, Du Prydeinig: Affricanaidd” oedd y mwyaf tebygol o fod yn ddi-waith (11.0%). Y grwpiau ethnig lleiaf tebygol o fod yn ddi-waith oedd “Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig: Tsieineaidd” (3.4%), “Gwyn: Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig” (3.9%), “Gwyn: Gwyddelig” (4.1%) a “Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig” (4.4%).

Y grwpiau ethnig a oedd yn fwyaf tebygol o fod yn economaidd anweithgar (yn y grŵp oedran 16 i 64) oedd “Gwyn: Sipsi a Theithiwr Gwyddelig” (61.7%) ac “Arabaidd” (57.9%). Y lleiaf tebygol oedd “Gwyn Arall” (20.7%), “Gwyn: Gwyddelig”

(25.5%) a “Gwyn: Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig” (26.8%).

## Gwahaniaeth cyflog ar sail ethnigrwydd

Yn 2022, y gwahaniaeth cyflog ar sail ethnigrwydd yng Nghymru oedd £2.23 (neu 16.8%). Mae hyn yn golygu bod gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru yn ennill £2.23 yn llai yr awr ar gyfartaledd na gweithwyr Gwyn. Mae’r gwahaniaeth cyflog wedi cynyddu £1.38 (9.9 pwynt canran) o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol, sydd wedi cael ei achosi gan ostyngiad o £0.44 yn yr enillion cyfartalog fesul awr ar gyfer gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn ogystal â chynnydd o £0.94 mewn enillion cyfartalog fesul awr ar gyfer gweithwyr Gwyn.

Oherwydd bod y data ar gyfer y bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd yng Nghymru yn anwadal iawn, dylid ystyried newidiadau tymor byr ochr yn ochr â thueddiadau hirdymor lle bo hynny’n bosibl. Ers 2019, mae’r bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd wedi gweld cynnydd cyffredinol lle mae enillion cyfartalog fesul awr gweithwyr Gwyn wedi cynyddu’n raddol ac mae’r enillion cyfartalog fesul awr ar gyfer gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi aros yn gymharol sefydlog.

## Statws economaidd-gymdeithasol

Mae Dosbarthiad Economaidd-gymdeithasol yr Ystadegau Gwladol (NS-SEC) yn rhoi syniad o sefyllfa economaidd-gymdeithasol, yn seiliedig ar ymatebion i gwestiynau am statws gweithgarwch economaidd, galwedigaeth a hanes cyflogaeth yng Nghyfrifiad 2021.

Mae naw categori NS-SEC gwahanol, sydd wedi cael eu crynhoi’n bum categori “lefel uchel” ar gyfer y dadansoddiad hwn.

## Ffigur 1.6: Grwpiau ethnig yn ôl statws economaidd-gymdeithasol, ar gyfer y rhai 16-64 oed, Cymru, 2021



Disgrifiad o Ffigur 1.6: Siart far sy'n dangos cyfran y preswylwyr arferol (16 i 64 oed) ym mhob grŵp ethnig a oedd yn perthyn i bob un o'r pum categori economaidd-gymdeithasol. Pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn "Asiaidd, Asiaidd Cymreig, neu Asiaidd Prydeinig: Indiaidd" neu "Wyn: Gwyddelig" oedd y mwyaf tebygol o unrhyw grŵp o nodi statws economaidd-gymdeithasol "Rheoli". Pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn y categori "Gwyn: Roma", "Cymysg neu Grwpiau aml-ethnig: Gwyn a Du Caribïaidd" a "Gwyn Arall" oedd y mwyaf tebygol o fod â statws economaidd-gymdeithasol gwaith ailadroddus neu led-ailadroddus.  Pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn "Arabaidd", "Asiaidd, Asiaidd Cymreig, neu Asiaidd Prydeinig: Tsieineaidd" neu'n "Ddu, Du Cymreig, Du Prydeinig, Affricanaidd neu Garibïaidd: Affricanaidd" oedd y mwyaf tebygol o ddweud eu bod yn fyfyrwyr.

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

Preswylwyr arferol (16 i 64 oed) yn y grŵp ethnig lefel uchel "Gwyn" oedd y mwyaf tebygol o fod â statws economaidd-gymdeithasol "Rheoli" (29.9%), ac yna "Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig" (26.6%) a "grwpiau ethnig cymysg neu aml-ethnig" (25.8%).

Pobl yn y grŵp ethnig lefel uchel "Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Affricanaidd neu Garibïaidd" oedd y mwyaf tebygol o fod yn fyfyrwyr (24.8%), ac yna "Grwpiau ethnig eraill" (23.7%) ac "Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig" (21.2%) a dim ond 6.8% o'r rhai yn y grŵp lefel uchel "Gwyn" oedd yn fyfyrwyr.

Roedd amrywiaeth sylweddol mewn statws economaidd-gymdeithasol ar draws grwpiau ethnig unigol.

Pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn "Asiaidd, Asiaidd Cymreig, neu Asiaidd Prydeinig: Indiaidd" (42.1%) neu'n "Wyn: Gwyddelig" (40.5%) oedd y mwyaf tebygol o unrhyw grŵp o nodi statws economaidd-gymdeithasol "Rheoli".

Pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn y categori "Gwyn: Roma" (35.9%), "Cymysg neu grwpiau aml-ethnig: Gwyn a Du Caribïaidd" (33.4%) a "Gwyn Arall" (32.7%) oedd y mwyaf tebygol o fod â statws economaidd-gymdeithasol gwaith ailadroddus neu led-ailadroddus.

Pobl a oedd yn ystyried eu hunain yn “Arabaidd” (32.5%), “Asiaidd, Asiaidd Cymreig, neu Asiaidd Prydeinig: Tsieineaidd” (29.5%) neu’n “Ddu, Du Cymreig, Du Prydeinig, Affricanaidd neu Garibïaidd: Affricanaidd” (29.0%) oedd y mwyaf tebygol o ddweud eu bod yn fyfyrwyr.

# Dulliau Teithio

Cafodd dangosydd cenedlaethol ar ganran y siwrneiau sy'n cael eu gwneud ar droed, ar gefn beic neu drafnidiaeth gyhoeddus ei ychwanegu at y set o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2021. Daw’r data hwn o Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru sy’n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, mae gwaith dadansoddi Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth am gyfnod cyn y pandemig (2018) yn dangos bod cyfran uwch o bobl o gefndir Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol wedi teithio i’r gwaith yng Nghymru ar drafnidiaeth gyhoeddus (9.9% o’i gymharu â 5.3% o bobl Wyn).

Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod aelwydydd lle mae person cyswllt y cartref yn Ddu, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd yng Nghymru yn llai tebygol o fod â mynediad at gar neu fan yn yr aelwyd (mae gan 64% fynediad o’r fath) nag aelwydydd sydd â pherson cyswllt y cartref Gwyn: Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig (81%) neu Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig (79%).

# Ffynonellau data a darllen pellach

## Tlodi

**Tlodi Incwm Cymharol: Ebrill 2021 i Fawrth 2022**

**Amddifadedd Materol, Arolwg Cenedlaethol Cymru**

## Addysg

**Cyrhaeddiad academaidd disgyblion yn asesiad sylfaenol y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 3, 2022**

Canlyniadau arholiadau: Medi 2021 i Awst 2022

Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: Cyflawniad, Awst 2021 i Orffennaf 2022 (ystadegau arbrofol)

Lefelau'r cymhwyster uchaf a ddelir gan oedolion o oedran gweithio: 2022

Ystadegau dysgu ôl-16 yn ôl grŵp ethnig y dysgwyr: Awst 2017 i Orffennaf 2021

## Gwaith ac enillion teg

Ystadegau'r Farchnad Lafur (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth): Ebrill 2022 i Fawrth 2023

Gwahaniaethau rhwng grwpiau ethnig mewn iechyd, tai, addysg a statws economaidd yng Nghymru (Cyfrifiad 2021)

Cymharu Cyfrifiad 2021 ac amcangyfrifon yr Arolwg o'r Llafurlu o'r farchnad lafur yng Nghymru a Lloegr (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Dadansoddiad cyflogaeth a gwaith.

# Cymru Iachach

Awdur: Dr William Perks

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle mae modd deall dewisiadau ac ymddygiad sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

## Iechyd babanod a mamau

Mae nifer y babanod â phwysau geni isel y flwyddyn yng Nghymru yn isel pan fyddant yn cael eu categoreiddio yn ôl grŵp ethnig, felly gall fod newidiadau cymharol fawr o flwyddyn i flwyddyn yn sgil anwadalrwydd naturiol.

Yn 2022, roedd pwysau geni is gan ganran uwch o fabanod Asiaidd (sy'n cynnwys y rheini o grŵp ethnig Pacistanaidd, Bangladeshaidd, Tsieineaidd, Indiaidd neu unrhyw grŵp ethnig Asiaidd arall) o'i gymharu â'r rheini o grwpiau ethnig eraill, a oedd i gyd yn weddol debyg i'w gilydd. Mae astudiaethau academaidd amrywiol (Wong et al 2002, Kelly et al 2008, Seaton et al 2011) yn awgrymu y byddai hyn yn debygol gan fod gan fabanod o gefndir ethnig Asiaidd bwysau geni cymedrig is, hyd cymedrig byrrach, a chylchedd pen cymedrig llai na babanod o grwpiau ethnig eraill. Fodd bynnag, mae canran y babanod o gefndiroedd ethnig Asiaidd sydd â phwysau geni isel yng Nghymru wedi bod ar duedd ar i fyny yn fras ac wedi cyrraedd 9.2% yn 2022. Mae hyn 3.0 pwynt canran yn uwch na'r grŵp ethnig nesaf gyda'r ganran uchaf nesaf o fabanod â phwysau geni isel. Roedd gan gyfran fwy o fabanod Asiaidd bwysau geni is nag unrhyw grŵp ethnig arall mewn pedair o'r pum mlynedd y mae data ar gael.

Roedd cyfraddau bwydo ar y fron ar gyfer y rhai o grŵp ethnig Du (sy'n cynnwys y rheini o grŵp ethnig Affricanaidd, Caribïaidd neu unrhyw grŵp ethnig arall) yn uwch nag unrhyw grŵp ethnig arall ar gyfer pob pwynt oedran o enedigaeth i 6 mis. Cafodd bron i 9 o bob 10 o blant Du eu bwydo ar y fron pan oeddent yn 10 diwrnod a 6 wythnos oed, a chafodd dros 7 o bob 10 o blant Du eu bwydo ar y fron pan oeddent yn 6 mis oed. Mae bwriad i fwydo ar y fron yn seiliedig ar grŵp ethnig y fam, ond mae cyfraddau bwydo ar y fron ar adegau eraill yn cyfeirio at grŵp ethnig y babi

Roedd cyfraddau bwydo ar y fron ar gyfer y rhai o grŵp ethnig Gwyn (sy'n cynnwys y rheini o unrhyw grŵp ethnig Gwyn) yn is nag unrhyw grŵp ethnig arall ar bob pwynt lle casglwyd data. Roedd bron i 6 o bob 10 o famau yn bwriadu bwydo ar y fron ac roedd cyfran debyg o blant Gwyn yn cael eu bwydo ar y fron ar adeg eu geni. Gostyngodd y gyfradd i ychydig llai na hanner y plant Gwyn a oedd yn cael eu bwydo ar y fron yn 10 diwrnod oed, traean yn cael eu bwydo ar y fron yn 6 wythnos oed, ac ychydig llai na chwarter yn cael eu bwydo ar y fron yn 6 mis oed. Roedd y gyfradd bwydo ar y fron ar gyfer plant Du tua thair gwaith yn uwch nag ar gyfer plant Gwyn ar ôl 6 wythnos a 6 mis.

## Ffigur 3.1 Bwydo ar y Fron yn ôl grŵp ethnig eang ac oedran y babi, Cymru, 2022 [Nodyn 1], [Nodyn 2]




Disgrifiad o Ffigur 3.1: Siart linell yn dangos bod cyfraddau bwydo ar y fron ar eu huchaf ymhlith y rhai o grŵp ethnig Du ac isaf ymhlith y rhai o grŵp ethnig Gwyn. Roedd y cyfraddau y newidiodd bwydo ar y fron gydag oedran y plentyn yn wahanol yn ôl grŵp ethnig.

Ffynhonnell: Data bwydo ar y fron, Llywodraeth Cymru

[Nodyn 1]: Mae bwriad i fwydo ar y fron yn seiliedig ar grŵp ethnig y fam, ond mae cyfraddau bwydo ar y fron ar adegau eraill yn cyfeirio at grŵp ethnig y babi .

[Nodyn 2]: Mae pob grŵp ethnig yn cynnwys y grwpiau ethnig unigol fel a ganlyn: Du (Affricanaidd, Caribïaidd neu unrhyw grŵp ethnig Du arall); Arall (unrhyw grŵp ethnig arall); Asiaidd (Pacistanaidd, Bangladeshaidd, Tsieineaidd, Indiaidd, unrhyw grŵp ethnig Asiaidd arall); Cymysg neu Aml-ethnig (Gwyn ac Asiaidd, Gwyn a Du Affricanaidd, Gwyn a Du Caribïaidd, unrhyw gefndir cymysg neu aml-ethnig arall); Gwyn (unrhyw gefndir Gwyn).

Roedd canran y menywod beichiog a ddywedodd fod ganddynt gyflwr iechyd meddwl ar ei huchaf ymysg menywod o grŵp ethnig Cymysg neu grŵp aml-ethnig (39%) (sy'n cynnwys y rheini o grŵp ethnig Gwyn ac Asiaidd, Gwyn a Du Affricanaidd, Gwyn a Du Caribïaidd ac unrhyw grŵp ethnig cymysg neu aml-ethnig arall) ac yna menywod o grŵp ethnig Gwyn (33%). Mae'r ddau grŵp ethnig hyn wedi gweld cynnydd tebyg ers i'r data gael ei gasglu am y tro cyntaf yn 2016, ac mae'r ddau grŵp ethnig wedi bod yn gyson uwch na grwpiau ethnig eraill.

Menywod beichiog o grwpiau ethnig Asiaidd a Du a nododd y ganran isaf gyda chyflwr iechyd meddwl (10%). Mae'r ganran hon wedi bod yn duedd gymharol sefydlog ers 2016 ar gyfer y ddau grŵp ethnig.

Roedd canran y menywod beichiog o grŵp ethnig Cymysg neu aml-ethnig a ddywedodd fod ganddynt gyflwr iechyd meddwl bron i bedair gwaith yn uwch na menywod o grwpiau ethnig Du ac Asiaidd yn 2022.

Roedd gan draean y menywod beichiog o grwpiau ethnig Du a Gwyn sgôr Mynegai Màs y Corff (BMI) o 30 neu fwy. Mae'r ganran ar gyfer y ddau grŵp ethnig wedi bod ar duedd ar i fyny yn fras ers i'r data gael ei gasglu am y tro cyntaf yn 2016.

Roedd gan bron iawn un o bob tair (29%) menyw feichiog o grŵp ethnig Cymysg neu aml-ethnig BMI o 30 neu fwy; mae gan y grŵp hwn y duedd fwyaf serth ar i fyny yn y tymor hwy ac roedd 10 pwynt canran yn uwch yn 2022 nag yn 2016.

Roedd canran y menywod beichiog gyda BMI o 30 neu fwy isaf ymysg y rhai o grŵp ethnig Asiaidd (18%) ac mae wedi aros yn gymharol sefydlog ers i'r data gael ei gasglu.

Mae canran y menywod beichiog sy'n cael eu cofnodi fel ysmygwr yn amrywio'n fawr yn ôl grŵp ethnig ac roedd ar ei huchaf ymhlith y rhai o grŵp ethnig Gwyn (16%

adeg yr asesiad cychwynnol a 14% adeg geni), o gymharu â'r rhai o grŵp ethnig Asiaidd (1% yn yr asesiad cychwynnol ac ar adeg geni).

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae cyfraddau ysmygu wedi gostwng ymysg y rheini sy'n perthyn i grŵp ethnig Gwyn neu Gymysg neu aml-ethnig, ac mae'r cyfraddau wedi bod yn eithaf tebyg, ond ar lefelau llawer is ar gyfer menywod beichiog o grwpiau ethnig Arall (sy'n cynnwys y rheini o unrhyw grŵp ethnig arall), Du ac Asiaidd.

## Arferion da ar gyfer ymddygiad iach mewn oedolion

Nod y garreg filltir genedlaethol yw cynyddu canran yr oedolion sydd â dau ymddygiad iach neu fwy i 97% erbyn 2050.

Oherwydd maint sampl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae dadansoddiadau yn ôl ethnigrwydd yn gyfyngedig, felly mae'r dadansoddiad isod yn cyfuno pedair blynedd o ddata (2016-17 i 2019-20) i ddadansoddi ymddygiad iach yn ôl grŵp ethnig eang. Ar ben hynny, mae'r dadansoddiad hwn ar sail canlyniadau wedi'u safoni yn ôl oedran er mwyn ystyried gwahaniaethau ym mhroffil oedran gwahanol grwpiau ethnig.

Roedd canran yr oedolion â dau neu fwy o ymddygiadau iach ar ei huchaf ymhlith y rhai o grŵp ethnig Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (97%) ac isaf ymhlith y rhai o grŵp ethnig Gwyn, Cymysg neu aml-ethnig (90% ac 88% yn y drefn honno, er o ganlyniad i ansicrwydd oherwydd maint y sampl, roedd y rhain ond yn arwyddocaol yn ystadegol o'u cymharu â'r rhai o grŵp ethnig Gwyn).

Roedd oedolion o grŵp ethnig Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig a grŵp ethnig Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig yn fwy tebygol o beidio ag ysmygu, gyda'r rheini o grŵp ethnig Gwyn, Cymysg neu aml-ethnig yn llai tebygol o beidio ag ysmygu. Roedd oedolion o grŵp ethnig Gwyn yn llai tebygol o yfed o fewn canllawiau alcohol na'r rheini mewn grwpiau eraill.

Oedolion o grŵp ethnig Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig oedd fwyaf tebygol o fod wedi bwyta o leiaf pum dogn o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol

na grwpiau ethnig eraill (er nad oedd y gwahaniaeth o'i gymharu â'r rhai yn y grŵp ethnig Arall yn arwyddocaol yn ystadegol).

Oedolion o grŵp ethnig Cymysg neu aml-ethnig oedd y lleiaf tebygol o fod yn gorfforol egnïol ac roedd oedolion o grŵp ethnig Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig yn fwy tebygol o fod â phwysau iach na grwpiau ethnig eraill (er, o ganlyniad i ansicrwydd oherwydd maint y sampl, roedd y rhain ond yn arwyddocaol yn ystadegol o'u cymharu â'r rheini o grŵp ethnig Gwyn).

### Ffigur 3.2: Canran safonedig yn ôl oedran yr oedolion sydd â dau neu fwy o ymddygiadau iach, yn ôl grŵp ethnig eang , 2016-17 i 2019-20 [Nodyn 1] [Nodyn2]




Disgrifiad o Ffigur 3.2: Siart far yn dangos bod canran yr oedolion â dau neu fwy o ymddygiadau iach ar ei huchaf ymhlith y rhai o grŵp ethnig Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig ac isaf ymhlith y rhai o grŵp ethnig Gwyn, Cymysg neu aml-ethnig.

Ffynhonnell: Ffordd o fyw oedolion (Arolwg Cenedlaethol Cymru) 2016-17 i 2019-20: dadansoddiad ychwanegol yn ôl anabledd, grŵp ethnig, statws priodasol, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, Llywodraeth Cymru

[Nodyn 1] Oherwydd maint sampl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae dadansoddiadau yn ôl ethnigrwydd yn gyfyngedig, felly mae'r dadansoddiad hwn yn cyfuno pedair blynedd o ddata i allu dadansoddi yn ôl grŵp ethnig eang.

[Nodyn 2] Mae grŵp ethnig arall yn cynnwys Arabaidd neu Unrhyw grŵp ethnig arall, disgrifiwch os gwelwch yn dda.

## Arferion da ar gyfer ymddygiad iach mewn plant

Nod y garreg filltir genedlaethol yw cynyddu canran y plant sydd â dau ymddygiad iach neu fwy i 94% erbyn 2035 ac i dros 99% erbyn 2050. Mae ymddygiadau iach yn cynnwys peidio ag ysmygu, peidio ag yfed alcohol neu beidio â'i yfed yn aml, bwyta ffrwythau neu lysiau bob dydd a bod yn gorfforol egnïol am awr neu fwy, saith diwrnod yr wythnos.

Dangosodd arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion fod canran y bobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed ym mlwyddyn academaidd 2021/22 a oedd yn bodloni'r dangosydd cenedlaethol o ddau neu fwy o ymddygiadau iach ar ei uchaf ymhlith y rhai o grŵp ethnig Indiaidd (95%) (ond o ganlyniad i ansicrwydd oherwydd maint y sampl ar gyfer gwahanol grwpiau, roedd y gwahaniaeth ddim ond yn arwyddocaol yn ystadegol o'i gymharu â'r rhai o grwpiau ethnig Gwyn Prydeinig, Pacistanaidd, Caribïaidd neu Ddu, a Sipsi a Theithiwr Gwyn).

Y rheini o grŵp ethnig Sipsi a Theithiwr Gwyn oedd y lleiaf tebygol o fodloni'r dangosydd cenedlaethol o ddau neu fwy o ymddygiadau iach (66%) o'i gymharu â'r holl grwpiau ethnig eraill.

Y rhai o grŵp ethnig Sipsi a Theithiwr Gwyn hefyd oedd y ganran uchaf o bobl ifanc ym mlwyddyn academaidd 2021/22 a ddywedodd eu bod; yn ysmygu tybaco o leiaf unwaith yr wythnos ar hyn o bryd, wedi rhoi cynnig ar e-sigaréts neu wedi eu defnyddio'n wythnosol, yn yfed unrhyw beth alcoholig o leiaf bob wythnos, wedi meddwi o leiaf bedair gwaith yn eu bywyd, wedi defnyddio cyffuriau ac yn yfed diodydd egni neu ddiodydd meddal llawn siwgr o leiaf bob dydd o'u cymharu â'r rhai o grwpiau ethnig eraill (er o ganlyniad i ansicrwydd oherwydd maint y sampl, nid

oedd y rhain yn arwyddocaol yn ystadegol ar gyfer diodydd egni neu ddiodydd meddal llawn siwgr o gymharu â'r rhai o'r grŵp ethnig Roma Gwyn.

Roedd canran y bobl ifanc ym mlwyddyn academaidd 2021/22 a ddywedodd eu bod yn gorfforol egnïol am o leiaf 60 munud y dydd yn y saith diwrnod diwethaf isaf ymhlith y rhai o'r grŵp ethnig Bangladeshaidd (11%) neu Tsieineaidd (12%) o gymharu â'r rhai o grwpiau ethnig eraill (ond o ganlyniad i ansicrwydd oherwydd maint y sampl nid oedd y rhain yn arwyddocaol yn ystadegol o'u cymharu â'r rheini o'r grŵp ethnig Roma Gwyn).

## Ffigur 3.3: Canran y bobl ifanc 11-16 oed â dau ymddygiad iach neu fwy, yn ôl grŵp ethnig, blwyddyn academaidd 2021/22




Disgrifiad o Ffigur 3.3: Siart far yn dangos bod pobl ifanc o grŵp ethnig Indiaidd wedi nodi'r cyfraddau uchaf o ddau neu fwy ymddygiad iach o'i gymharu â'r rheini o grŵp ethnig Sipsi neu Deithiwr Gwyn a oedd yn adrodd y gyfradd isaf.

Ffynhonnell: Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr, Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion

# Canlyniadau iechyd

Mae’r Cyfrifiad yn casglu gwybodaeth gyfyngedig am ganlyniadau iechyd, gan gynnwys salwch cyfyngol a chanfyddiad o iechyd cyffredinol. Mae’r adran hon yn rhoi gwybodaeth am y canlyniadau iechyd hynny a nodwyd yng Nghyfrifiad 2011. Er bod y dangosyddion hyn yn hunan-gofnodedig, maent yn rhoi syniad da o sut mae gwahanol boblogaethau ethnig yn gweld eu hiechyd o ddydd i ddydd.

Mae dadansoddiad mwy diweddar sy’n defnyddio data o Gyfrifiad 2021 wedi cael ei gynnal ac mae’n cael ei ddarparu yn yr adran “Ffynonellau data a darllen pellach” isod, ond nid yw’n cael sylw manwl yma gan ei fod yn cyfuno Cymru a Lloegr gan atal cyflwyno safbwynt ar y darlun penodol i Gymru ac nid yw’n safonedig yn ôl oedran eto.

Wrth ddefnyddio data o Gyfrifiad 2011, mae canlyniadau iechyd gwaeth yn cynyddu’n sylweddol gydag oedran ar draws pob grŵp ethnig. Gan fod strwythur oedran grwpiau ethnig yng Nghymru yn wahanol iawn, mae’r data a gyflwynir yn yr adran hon yn safonedig yn ôl oedran. Mae canrannau safonedig yn ôl oedran yn caniatáu i gymariaethau gael eu gwneud ar draws grwpiau gan ystyried y gwahaniaethau hynny mewn strwythur o ran oedran.

Ar ôl ystyried oedran, y grŵp Cymysg neu aml-ethnig sydd â’r ganran uchaf o’i boblogaeth sy’n nodi bod ganddynt salwch cyfyngol ac yna’r grŵp Gwyn Prydeinig neu Wyddelig. Y grŵp Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig sydd â’r ganran isaf. Yn y grŵp oedran 65 oed a hŷn, mae llai o amrywiaeth ar draws y grwpiau, gyda’r grŵp Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig â’r ganran isaf.

Y grŵp Cymysg neu aml-ethnig adroddodd hefyd y ganran uchaf o’r rhai mewn iechyd cyffredinol gwael neu wael iawn. Y grŵp Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig oedd yn nodi'r ganran isaf. Ymysg y rhai 65 oed a hŷn, y grŵp Gwyn sydd â’r ganran isaf a oedd yn nodi bod eu hiechyd cyffredinol yn wael neu’n wael iawn. Ar gyfer y dangosydd hwn, mae pobl Wyn Prydeinig neu Wyddelig a Gwyn eraill wedi cael eu grwpio gyda’i gilydd i osgoi’r risg o ddatgelu.

**Ffigur 3.4: Canran safonedig yn ôl oedran sy'n adrodd am salwch cyfyngol ac iechyd cyffredinol gwael neu wael iawn, yn ôl grŵp ethnig eang, gan ddefnyddio Cyfrifiad 2011 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 3.4: Siart far yn dangos bod y rhai o grŵp ethnig Cymysg neu aml-ethnig wedi nodi'r cyfraddau uchaf o salwch cyfyngol ac iechyd cyffredinol gwael neu wael iawn ar ôl safoni ar gyfer oedran.

Ffynhonnell: Ethnigrwydd ac Iechyd yng Nghymru (2015), Iechyd Cyhoeddus Cymru

[Nodyn 1] Ar gyfer iechyd cyffredinol, mae pobl Wyn Prydeinig neu Wyddelig a Gwyn eraill wedi cael eu grwpio gyda'i gilydd i osgoi'r risg o ddatgelu. Mae Gwyn arall yn cynnwys Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig Gwyn.

## Iechyd meddwl a llesiant ymysg oedolion

Y garreg filltir genedlaethol ar lesiant meddyliol yw gwella llesiant meddyliol cymedrig oedolion a phlant a dileu'r bwlch mewn llesiant meddyliol cymedrig oedolion a phlant rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig yng Nghymru erbyn 2050.

Gofynnwyd i oedolion 16 oed a hŷn am eu llesiant meddyliol a sgoriwyd y canlyniadau gan ddefnyddio Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin (WEMWBS). Mae sgôr uwch (58 i 70) yn awgrymu llesiant meddyliol uchel, ac mae sgorio 44 neu is yn awgrymu llesiant meddyliol isel. Mae sgôr rhwng 45 a 57 yn awgrymu bod gan yr unigolyn lesiant meddyliol canolig. Y sgôr WEMWBS gyffredinol ar gyfer oedolion yn 2022-23 oedd 48.

Oherwydd maint sampl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae dadansoddiadau yn ôl ethnigrwydd yn gyfyngedig, felly mae'r dadansoddiad isod wedi cyfuno grwpiau i osgoi'r risg o ddatgelu. Wrth edrych ar y grwpiau cyfun hyn, nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y sgôr WEMWBS cyffredinol.

Mae'n bosibl, o fewn y grwpiau ethnig eang hyn, bod llesiant gwahanol grwpiau'n amrywio'n fwy, ac efallai na fydd hyn i'w weld yma oherwydd cyfuno grwpiau. Mae data isod ar lesiant meddyliol pobl ifanc 11-16 oed gan ddefnyddio Graddfa Llesiant Meddwl Cryno Warwick-Caeredin (SWEMWBS) o'r Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr yn gallu adrodd ar ddadansoddiad manylach o grwpiau ethnig.

**Ffigur 3.5: Sgôr Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin ar gyfartaledd ar gyfer oedolion, yn ôl grŵp ethnig eang, 2022-23 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 3.5: Siart far yn dangos nad oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y sgôr WEMWBS cyffredinol ar gyfer oedolion yn y grwpiau ethnig cyfun hyn.

Ffynhonnell: Darperir data ad hoc ar gais gan Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

[Nodyn 1] Oherwydd maint sampl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae dadansoddiadau yn ôl ethnigrwydd yn gyfyngedig, felly mae'r dadansoddiad hwn wedi cyfuno grwpiau i osgoi'r risg o ddatgelu.

# Iechyd meddwl a llesiant plant

Y garreg filltir genedlaethol ar lesiant meddyliol yw gwella llesiant meddyliol cymedrig oedolion a phlant a dileu’r bwlch mewn llesiant meddyliol cymedrig oedolion a phlant rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig yng Nghymru erbyn 2050.

Mesurir llesiant meddyliol pobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed gan ddefnyddio Graddfa Llesiant Meddyliol Cryno Warwick-Caeredin (SWEMWBS) sy’n cwmpasu hapusrwydd person ac i ba raddau y mae person yn gweithredu’n llawn. Mae sgôr gyffredinol uwch ar gyfer SWEMWBS yn arwydd o lesiant meddyliol mwy cadarnhaol.

Roedd sgôr gyfartalog SWEMWBS ym mlwyddyn academaidd 2021/22 ar gyfer pobl ifanc ar ei uchaf ymysg y rheini o grwpiau ethnig Indiaidd ac Affricanaidd (y ddau yn 24) (er, o ganlyniad i ansicrwydd oherwydd maint y sampl, nid oedd y rhain yn arwyddocaol yn ystadegol o’u cymharu â’r rheini o grwpiau ethnig Roma Gwyn, Pacistanaidd, Bangladeshaidd neu Arabaidd).

Roedd y rhai o grŵp ethnig Sipsi a Theithiwr Gwyn wedi nodi’r sgôr SWEMWBS isaf (21) o’i gymharu â’r holl grwpiau ethnig eraill (er, oherwydd ansicrwydd o ganlyniad i faint y sampl, nid oedd y rhain yn arwyddocaol yn ystadegol o’u cymharu â’r rheini o grŵp ethnig Gwyn Gwyddelig).

Roedd y rhain yn dueddiadau tebyg i’r rhai a adroddwyd ers blwyddyn academaidd 2017/18 ac nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng y rhan fwyaf o grwpiau ethnig.

Roedd canran y bobl ifanc ym mlwyddyn academaidd 2021/22 a oedd yn nodi bod eu bodlonrwydd ar fywyd yn 6 neu’n uwch ar yr Ysgol Cantril (lle roedd sgoriau’n amrywio o 0 i 10, a sgôr o 6 neu uwch wedi’i diffinio fel bodlonrwydd uchel ar fywyd) hefyd ar ei uchaf ymysg y rhai o grŵp ethnig Indiaidd (81%) (ond o ganlyniad i ansicrwydd oherwydd maint y sampl nid oedd y rhain yn arwyddocaol yn ystadegol o gymharu â’r rhai o’r grwpiau ethnig Roma Gwyn, Tsieineaidd, Arabaidd, Gwyn Prydeinig, Bangladeshaidd, Affricanaidd neu Arall).

Mae’r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau yn offeryn sgrinio ar gyfer mesur problemau a chryfderau seicolegol. Mae sgôr gyffredinol uwch ar gyfer Holiadur Cryfderau ac Anawsterau yn arwydd o iechyd meddwl gwaeth. Roedd canran y bobl ifanc ym mlwyddyn academaidd 2021/22 a gafodd sgôr uchel iawn yn yr Holiadur Cryfderau ac Anawsterau ar ei huchaf ymysg y rheini o grŵp ethnig Sipsi a Theithiwr Gwyn (41%) (ond o ganlyniad i ansicrwydd oherwydd maint y sampl nid oedd y rhain yn arwyddocaol yn ystadegol o’u cymharu â’r rheini o’r grŵp ethnig Gwyn Gwyddelig).

Dywedodd y rhai o grŵp ethnig Indiaidd eu bod wedi cael y sgoriau gorau ar gyfer yr Holiadur Cryfderau ac Anawsterau, gyda 75% yn agos at sgôr iechyd meddwl cyfartalog. Roedd y rhain yn dueddiadau tebyg rhwng grwpiau ethnig i'r rhai a adroddwyd yn flaenorol.

### Ffigur 3.6: Canran y bobl ifanc 11-16 oed sy'n fodlon ar eu bywyd, yn ôl grŵp ethnig, blwyddyn academaidd 2021/22




Disgrifiad o Ffigur 3.6: Siart far yn dangos bod pobl ifanc o grŵp ethnig Indiaidd wedi nodi'r cyfraddau boddhad uchaf â'u bywyd o gymharu â'r rhai o grŵp ethnig Sipsi neu Deithiwr Gwyn a adroddodd y gyfradd isaf.

Ffynhonnell: Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr, Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion

## Disgwyliad oes ac achosion marwolaeth

Y garreg filltir genedlaethol ar gyfer disgwyliad oes iach yw cynyddu disgwyliad oes iach oedolion a lleihau'r bwlch rhwng disgwyliad oes iach y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig o leiaf 15% erbyn 2050.

Nid oes dadansoddiad cyhoeddedig sy'n benodol i Gymru ar ddisgwyliad oes ac achosion marwolaethau yn ôl ethnigrwydd ar gael ar hyn o bryd, ond mae

gwybodaeth gyd-destunol sy’n cyfuno data Cymru a Lloegr ar sail cysylltu Cyfrifiad 2011 â chofrestriadau marwolaeth, ac mae wedi’i grynhoi isod. Rydym yn bwriadu gweithio gyda’r Swyddfa Ystadegau Gwladol i fynd i’r afael â’r bwlch hwn yn y dyfodol.

Yn y cyfnod 2011 i 2014 yng Nghymru a Lloegr, roedd disgwyliad oes dynion a menywod yn y grwpiau ethnig Gwyn a Chymysg neu aml-ethnig yn is ar adeg eu geni na phob grŵp ethnig arall, ac roedd disgwyliad oes y grŵp Du Affricanaidd yn uwch yn ystadegol na’r rhan fwyaf o grwpiau.

Yn arwyddocaol yn ystadegol, roedd cyfraddau marwolaethau safonedig yn ôl oedran uwch o ganser ymysg dynion a menywod y grŵp ethnig Gwyn o’i gymharu â grwpiau ethnig Du ac Asiaidd.

Yn arwyddocaol yn ystadegol, roedd cyfraddau marwolaethau safonedig yn ôl oedran o glefydau cylchredol (clefydau'r galon a rhai cysylltiedig) ymysg dynion Indiaidd, Bangladeshaidd a Chymysg, a menywod Pacistanaidd, Indiaidd a Chymysg o’i gymharu â’r grŵp Gwyn.

Mae canserau a chlefydau cylchredol yn cyfrif am 61% o farwolaethau dynion a 53% o farwolaethau menywod yn yr astudiaeth ac felly maent yn ddylanwad pwysig ar y gwahaniaethau disgwyliad oes a welir rhwng grwpiau ethnig.

Mae’r canlyniadau hyn yn datgelu patrymau cymhleth o ran disgwyliad oes a marwolaeth yn ôl grŵp ethnig.

Yn olaf, mae pandemig COVID-19, nad yw’n cael ei drafod yn y dadansoddiad yn yr adran hon, wedi cael effaith anghymesur o niweidiol ar grwpiau ethnig Du ac Asiaidd, sy’n gwrthgyferbynnu â’r patrwm marwoldeb mwy ffafriol a welwyd yn y cyfnod 2011 i 2014 a ddisgrifir uchod.

# Ffynonellau data a darllen pellach

Darperir data ad hoc ar gais gan Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

Ffordd o fyw oedolion (Arolwg Cenedlaethol Cymru) 2016-17 i 2019-20: dadansoddiad ychwanegol yn ôl anabledd, grŵp ethnig, statws priodasol, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, Llywodraeth Cymru

**Data bwydo ar y fron**

**Ethnigrwydd ac iechyd yng Nghymru, 2015 (Iechyd Cyhoeddus Cymru)**

**Gwahaniaethau ethnig mewn disgwyliad oes a marwolaethau o achosion dethol yng Nghymru a Lloegr: 2011 i 2014 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

**Gwahaniaethau grwpiau ethnig mewn iechyd, cyflogaeth, addysg a thai a ddangosir yng Nghyfrifiad Cymru a Lloegr 2021 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)**

**Ystadegau mamolaeth a genedigaethau**

**Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr (Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion)**

# Cymru o Gymunedau Cydlynus

Awdur: Dr Steven Marshall

Cymru o Gymunedau Cydlynus: Cymunedau deniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

## Cydlyniant cymunedol

Mae'r dangosydd cenedlaethol, ymdeimlad o gymuned yn cynnwys tri mesur o gydlyniant cymunedol – perthyn i'r ardal leol, pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda, a thrin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth. Yn gyffredinol, ni fu unrhyw wahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn y mesur yn ôl grŵp ethnig rhwng 2018-19, 2020-21 a 2021-22 fel y nodwyd gan **Arolwg Cenedlaethol Cymru**. Yr unig eithriad oedd 2021-22, a oedd â chanran is o bobl o gefndir Gwyn (Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir gwyn arall) yn cytuno â'r tri datganiad na'r ddau grŵp ethnig lefel uchel arall.

Fodd bynnag, gwelwyd rhai gwahaniaethau yn ôl grŵp ethnig yn y tri mesur cydlyniant cymunedol:

- perthyn i'r ardal leol – mae canran y bobl o grwpiau Gwyn (Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir Gwyn arall) sy'n cytuno â'r datganiad yn is nag ar gyfer y rheini o gefndir Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon) ym mhob un o dair blynedd yr arolwg. Nid oes gwahaniaethau sylweddol rhwng y grŵp Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol a'r ddau grŵp ethnig arall; yr unig eithriad yw yn 2021-22 pan fo'r ganran ar gyfer y grŵp hwnnw yn sylweddol is nag ar gyfer y grŵp Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon) (gweler Siart 5.1)
- pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda – nid oes gwahaniaethau yn y canrannau o bobl sy'n cytuno â'r datganiad ar draws y tri grŵp ethnig lefel uchel.

- trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth – mae'r ganran sy'n cytuno â'r datganiad yn uwch yn gyffredinol ar gyfer pobl o gefndir Gwyn (Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir Gwyn arall) a grwpiau Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol nag ar gyfer y grŵp ethnig Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon), ond nid yw'r gwahaniaethau'n arwyddocaol yn ystadegol ac eithrio ar gyfer 2018-19. (gweler Siart 5.1)

Esboniad posibl dros bobl o gefndir Gwyn (Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir gwyn arall) â chanran is ar gyfer y mesur cyffredinol o gydlyniant cymunedol yn 2021-22 yw, er bod yr elfennau perthyn i'r ardal leol a phobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda yn dilyn y duedd a ddisgrifir uchod, nid yw'r elfen trin ei gilydd â pharch yn sylweddol uwch nag ar gyfer grŵp Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon) fel ym mlynyddoedd blaenorol yr arolwg (2018-19 a 2020-21).

## Ffigur 5.1: Canran y bobl sy’n cytuno â’r datganiadau sy’n arwydd o gydlyniant cymunedol









Disgrifiad o Ffigur 5.1: Siart far yn dangos canran yr oedolion sy'n cytuno â'r tri mesur unigol o gydlyniant cymunedol – perthyn i'r ardal leol, pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda, a thrin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth. Mae'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi yn ôl ethnigrwydd ac yn cael eu dangos ar gyfer tair blwyddyn wahanol yr arolwg (2018-19, 2020-21 a 2021-22).

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

## Teimlo'n ddiogel

Nid oedd y data ar gyfer 2020-21 a 2021-22 yn dangos unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ystadegol rhwng y tri grŵp ethnig lefel uchel Gwyn (Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir Gwyn arall); Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol; a Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon). Roedd hyn yn wir am bob un o gydrannau'r mesur yn ogystal â'r prif ffigur o 'deimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu'.

Mae'r dangosydd cenedlaethol ar deimlo'n ddiogel yn berthnasol i bobl 16 oed a hŷn. Nid oes unrhyw fesurau y gellir eu cymharu'n uniongyrchol ar gyfer plant sy'n

teimlo’n ddiogel, ond mae Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn casglu gwybodaeth am blant sy’n cael eu bwlio.

Yn yr Arolwg hwn yn 2021/22, dywedodd 32% o bobl ifanc 11 i 16 oed yng Nghymru eu bod wedi bod yn cael eu bwlio yn yr ysgol yn ystod y mis neu ddau ddiwethaf, o’i gymharu â 33% yn 2019/20.

Yn Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2021/22, roedd amrywiadau mawr yn ôl grwpiau ethnig o ran canran y bobl ifanc 11 i 16 oed yng Nghymru a oedd yn dweud eu bod wedi bod yn cael eu bwlio yn yr ysgol neu’n cael eu seiberfwlio yn y mis neu ddau ddiwethaf. Fodd bynnag, ar gyfer grwpiau ethnig y mae maint y samplau’n llai, nid yw’n glir beth yw’r gwahaniaethau ‘go iawn’ oherwydd cyfyngau hyder eang.

Yr hyn sy’n glir o’r data yw bod pobl ifanc a nododd eu bod yn y grŵp Sipsi/Teithiwr Gwyn, Gwyn Gwyddelig, Gwyn Arall neu lle na ddewiswyd categori penodol (sef yr opsiwn ‘arall’) yn llawer mwy tebygol na phobl ifanc yn gyffredinol o ddweud eu bod yn cael eu bwlio yn yr ysgol. Roedd y rheini a nododd eu bod yn y grŵp Arall, Sipsi/Teithiwr Gwyn, Gwyn Gwyddelig, Gwyn Arall neu Roma Gwyn yn llawer mwy tebygol na phobl ifanc yn gyffredinol o ddweud eu bod yn cael eu seiberfwlio.

Mae’n amlwg hefyd bod pobl ifanc a nododd eu bod yn Affricanaidd, Bangladeshaidd, Indiaidd neu Bacistanaidd yn llawer llai tebygol na phobl ifanc yn gyffredinol o ddweud eu bod yn cael eu bwlio yn yr ysgol. Roedd y rhai a nododd eu bod yn Affricanaidd neu Indiaidd hefyd yn llawer llai tebygol na phobl ifanc yn gyffredinol o ddweud eu bod yn cael eu seiberfwlio.

## Bodlonrwydd ar yr ardal leol

Nid oedd y data ar gyfer 2018-19, 2020-21 a 2021-22 yn dangos unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ystadegol rhwng grwpiau ethnig lefel uchel Gwyn (Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir Gwyn arall); Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol a Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon).

## Dylanwadu ar benderfyniadau lleol

Bu cynnydd cyffredinol amlwg yng nghanran y bobl sy’n cytuno â’r datganiad eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy’n effeithio ar eu hardal leol o 2018-19 o’i gymharu â 2021-22. Mae’n bosibl bod hyn yn adlewyrchu newid go iawn o ganlyniad uniongyrchol i’r pandemig, ond mae angen ei fonitro yn ystod blynyddoedd yr arolwg yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw’r un patrwm o reidrwydd yn cael ei adlewyrchu pan fydd y dangosydd yn cael ei ddadansoddi yn ôl grwpiau ethnig, gyda dim ond y categori Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon) yn gweld newid arwyddocaol yn ystadegol rhwng 2018-19 a 2021-22.

Er gwaethaf y newid yn y lefel gyffredinol, mae’r canrannau ar gyfer grwpiau Gwyn (Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir Gwyn arall), a Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol yn sylweddol uwch nag ar gyfer Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon) yn 2018-19 a 2021-22.

### Ffigur 5.2: Canran y bobl sy’n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy’n effeithio ar eu hardal leol




Disgrifiad o Ffigur 5.2: Siart far yn dangos canran y bobl sy’n cytuno â’r datganiad eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau am eu hardal leol ar gyfer 2018-19 a 2021-22, wedi’u dadansoddi yn ôl grwpiau ethnig lefel uchel. Mae cyfran y bobl sy’n

teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau am eu hardal leol yn uwch yn 2021-22 nag yn 2018-19 ar draws pob grŵp ethnig.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

## Gwirfoddoli

Yn 2022-23, nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ystadegol rhwng canran y bobl a oedd yn gwirfoddoli rhwng grwpiau ethnig lefel uchel Gwyn (Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir Gwyn arall); Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol; a Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon). Mae'r ffigurau ar gyfer 2022-23 yn debyg iawn ar gyfer pob grŵp (28%, 34% a 30% yn y drefn honno).

Yn 2019-20 roedd y ganran ar gyfer Gwyn (Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir Gwyn arall) yn is (18% o'i gymharu â ffigur cyffredinol o 26%), er bod y gwahaniaeth hwn yn anodd ei ddehongli heb ddata ar gyfer blynyddoedd eraill.

Mae'r dangosydd cenedlaethol yn berthnasol i'r rhai 16 oed a hŷn, fodd bynnag, mae data tebyg ar gael ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed gan **Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)**.

Yn Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2019/20, dywedodd 32% o bobl ifanc 11 i 16 oed yng Nghymru eu bod yn gwirfoddoli i glwb neu fudiad yn eu hamser rhydd y tu allan i'r ysgol, a 14% yn yr ysgol. Dywedodd tua hanner y bobl ifanc (53%) nad oeddent yn gwirfoddoli.

Bechgyn oedd fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn gwirfoddoli y tu allan i'r ysgol (34%), o'i gymharu â 30% o ferched a 28% o'r rheini nad oeddent yn ystyried eu hunain yn fachgen nac yn ferch. Roedd gwirfoddoli y tu allan i'r ysgol yn gostwng gydag oedran, o 39% ym mlwyddyn 7 i 24% ym mlwyddyn 11. Roedd pobl ifanc yn y grŵp golud teuluol uchel (ar Raddfa Golud Teuluol HBSC) hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwirfoddoli y tu allan i'r ysgol na'r rheini yn y grŵp golud teuluol isel (38% o'i gymharu â 22% yn y drefn honno).

Yn Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2019/20, roedd amrywiadau mawr yn ôl grwpiau ethnig o ran canran y bobl ifanc 11 i 16 oed yng Nghymru a oedd yn dweud eu bod yn gwirfoddoli i glwb neu fudiad yn eu hamser rhydd y tu allan i'r ysgol. Fodd bynnag, ar gyfer grwpiau ethnig y mae maint y samplau'n llai, nid yw'n glir beth yw'r gwahaniaethau 'go iawn' oherwydd cyfyngau hyder eang.

Yr hyn sy'n glir o'r data yw bod pobl ifanc a nododd eu bod yn y grŵp Bangladeshaidd, Tsieineaidd, Cymysg neu grŵp aml-ethnig, Pacistanaidd neu Sipsi/Teithiwr Gwyn yn llawer llai tebygol na phobl ifanc yn gyffredinol o ddweud eu bod yn gwirfoddoli y tu allan i'r ysgol.

## Unigrwydd

Mae'r mesur cyffredinol o unigrwydd wedi aros yr un fath dros y blynyddoedd diwethaf, ond fel y gwelir yn y prif adroddiad, mae mwy o newid o fewn chwe elfen y mesur cyffredinol. Gwelir y newid mawr hwn hefyd wrth ystyried dadansoddiad o ethnigrwydd y mesur. Fodd bynnag, nid yw'n glir beth sy'n wahaniaethau 'go iawn' oherwydd cyfyngau hyder eang yn ogystal â'r rhyngweithio â phandemig COVID-19, newidiadau mewn methodoleg casglu arolygon ac ethnigrwydd.

Yr hyn sy'n glir o'r data yw bod y ganran 'ddim yn unig' ar draws tair o'r pedair blynedd diwethaf (2019-20, 2021-22 a 2022-23) yn is ar gyfer grwpiau Gwyn (Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir gwyn arall) a Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol nag ar gyfer Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon). Mae mwy o newid ar gyfer Gwyn (Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir gwyn arall) a Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol rhwng 'unig' (sef unig ar bedwar neu fwy o'r chwe mesur) ac 'yn unig weithiau' (sef unig ar un i dri o'r chwe mesur). Fodd bynnag, os yw cyfartaledd y canrannau'n cael ei gyfrifo dros y pedair blynedd diwethaf, yna mae'r categori 'yn unig weithiau' yn sefydlogi i fod yr un fath ar draws pob grŵp ac mae'r dangosydd cenedlaethol 'unig' yn is ar gyfer y grŵp Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon) nag ar gyfer y ddau grwp ethnig arall : Gwyn (Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir gwyn arall) a Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol (14% o'i gymharu â 23% a 22% yn y

drefn honno). Er y byddai angen gwneud rhagor o waith i ddeall lefel yr hyder ystadegol yn y gwahaniaethau hyn, mae yna arwyddion cryf bod lefelau sylfaenol gwirioneddol o unigrwydd uwch ar gyfer y grwpiau Gwyn Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir gwyn arall a Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol.

### Ffigur 5.3: Mesur o unigrwydd oedolion wedi'i fesur ar gyfartaledd dros bedair blynedd




Disgrifiad o Ffigur 5.3: Siart far yn dangos canran yr oedolion a ddosbarthwyd yn dri grŵp unigrwydd, wedi'u dadansoddi yn ôl ethnigrwydd. Mae'r canlyniadau wedi'u mesur ar gyfartaledd ar draws pedair blynedd, o 2019 i 2023.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Wrth edrych ar chwe elfen y mesur unigrwydd, mae'r canrannau sy'n unig ar bob mesur yn uwch ar y cyfan ar gyfer Gwyn (Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir gwyn arall) a Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol nag ar gyfer Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon). Fodd bynnag, nid yw'r gwahaniaethau'n arwyddocaol yn ystadegol ond maent yn gyson ar draws blynyddoedd. Mae cyfartaledd dros y pedair blynedd diwethaf yn dangos sut mae'r elfennau hyn o unigrwydd yn amrywio yn ôl ethnigrwydd.

## Ffigur 5.4: Canran y bobl sy’n teimlo’n unig yn ôl rheswm




Disgrifiad o Ffigur 5.4: Siart far yn dangos canran yr oedolion sy’n cytuno (ydw) neu’n anghytuno (nac ydw), wedi’i ddadansoddi yn ôl ethnigrwydd, gyda chwe elfen unigol o’r mesur unigrwydd. Mae’r canlyniadau wedi’u mesur ar gyfartaledd dros bedair blynedd (2019-2023).

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae'r dangosydd cenedlaethol yn berthnasol i'r rhai 16 oed a hŷn, fodd bynnag, mae data tebyg ar gael ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed gan **Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)**.

Yn Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2021/22, dywedodd 14% o bobl ifanc 11 i 16 oed yng Nghymru eu bod yn teimlo'n unig yn aml, o'i gymharu â 12% yn 2019/20.

Yn yr Arolwg yn 2021/22, roedd amrywiadau mawr yn ôl grwpiau ethnig o ran canran y bobl ifanc 11 i 16 oed yng Nghymru a oedd yn dweud eu bod wedi teimlo’n unig o leiaf rywfaint o'r amser yn ystod y gwyliau haf diwethaf. Fodd bynnag, ar gyfer grwpiau ethnig y mae maint y samplau’n llai, nid yw’n glir beth yw’r gwahaniaethau ‘go iawn’ oherwydd cyfyngau hyder eang.

Yr hyn sy'n glir o'r data yw bod pobl ifanc a oedd yn ystyried eu bod yn y grwpiau ethnig Tsieineaidd, Cymysg neu aml-ethnig, Gwyn Gwyddelig neu Wyn Arall yn llawer mwy tebygol na phobl ifanc yn gyffredinol o ddweud eu bod wedi teimlo'n unig o leiaf rywfaint o'r amser yn ystod y gwyliau haf diwethaf. Roedd pobl ifanc a nododd eu bod yn Affricanaidd, Bangladeshaidd neu Indiaidd yn llawer llai tebygol na phobl ifanc yn gyffredinol o ddweud eu bod wedi teimlo'n unig o leiaf rywfaint o'r amser yn ystod y gwyliau haf diwethaf.

## Digartrefedd

Mae data digartrefedd statudol yn dangos bod 78% o'r prif ymgeiswyr yn 2022-23 a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd ac yn gymwys i gael cymorth yn Wyn (Gwyn Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon) a Gwyn Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir Gwyn arall), roedd 9% yn Ddu, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol ac roedd 12% yn anhysbys.

## Dioddefwyr Troseddau

Nid yw Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn gallu darparu amcangyfrifon cadarn o gyfran y dioddefwyr yn ôl ethnigrwydd yng Nghymru, felly mae'r data a gyflwynir yma yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Ni ddylid tybio y byddai'r cymariaethau yr un fath yng Nghymru.

Dangosodd yr Arolwg Troseddu bod canran uwch (15.1%) o'r rheini o gefndiroedd cymysg neu aml-ethnig wedi dioddef troseddau (ac eithrio twyll) yn 2022-23. Ar gyfer pob grŵp ethnig arall, roedd rhwng 9.5% a 10.6% wedi dioddef troseddau. Mae'r holl grwpiau ethnig wedi gweld gostyngiad yn y ganran a oedd wedi dioddef troseddau yn y gyfres amser a oedd ar gael o 2014-15. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf ymhlith y rhai yn y cefndir ethnig cymysg neu aml-ethnig (wedi gostwng o 27.9% yn 2014-15).

Yn yr un modd, roedd canran uwch (3.4 %) o'r rhai o gefndiroedd ethnig cymysg neu aml-ethnig wedi dioddef troseddau personol, a'r ganran uchaf nesaf (3.1%) oedd lle na ddewiswyd categori penodol (sef opsiwn 'arall'). Ar gyfer pob grŵp ethnig arall, roedd rhwng 1.8% a 2.6% wedi dioddef troseddau personol. Mae pob grŵp ethnig

wedi gweld tuedd ar i lawr yn gyffredinol yn y canrannau hyn dros y gyfres amser, er bod rhywfaint o amrywiadau wedi bod.

## Ffynonellau data a darllen pellach

**Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr (Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion)**

**Aelwydydd y darparwyd cymorth ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn, yn ôl grŵp ethnig yr ymgeisydd**

# Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Awdur: Stephanie Howarth

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu: Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

## Celfyddydau, diwylliant a threftadaeth

Mae'r dangosydd cenedlaethol ar y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth yn ystyried a yw oedolion wedi mynychu neu gymryd rhan yn y celfyddydau, mewn diwylliant neu dreftadaeth dair gwaith neu fwy dros y flwyddyn ddiwethaf. Wrth edrych ar Gymru yn ei chyfanrwydd, nid yw'r dangosydd cenedlaethol hwn wedi newid yn sylweddol ers iddo gael ei gasglu gyntaf yn 2017-18, ac mae'r patrwm hwn i'w weld ar draws y tri grŵp ethnig lefel uchel hefyd. [(r)]

Mae gwahaniaethau mawr o ran presenoldeb a chyfranogiad rhwng rhai grwpiau, er enghraifft, yn ôl oedran neu amddifadedd. Fodd bynnag, ni chanfu Arolwg Cenedlaethol Cymru unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ystadegol rhwng grwpiau ethnig yn 2022-23.

Wrth edrych ar dueddiadau cyffredinol ers 2017-18, nid oes unrhyw wahaniaethau sylweddol dros amser ym mhresenoldeb na chyfranogiad y tri grŵp ethnig lefel uchel. [(r)] Fodd bynnag, rhwng 2017-18 a 2019-20 cafwyd gostyngiad yng nghanran y bobl o gefndir Gwyn (Seisnig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon) a oedd yn mynychu gweithgareddau yn ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant neu

[(r)] Mae camgymeriad wedi ei nodi yn y dangosydd celfyddydau, diwylliant a threftadaeth sy'n seiliedig ar ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol o flwyddyn gwaith maes 2022-23 (mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023). Dylai'r defnydd o archifau, llyfrgelloedd, ac amgueddfeydd fod wedi ei gynnwys yn y dangosydd, ond ni ddigwyddodd hynny, ac felly adroddwyd yn anghywir bod gostyngiad mewn cyfranogiad o'i gymharu â 2019-20. Mae'r dangosydd diwygiedig yn dangos na fu gostyngiad o'i gymharu â 2019-20. Mae'r ffigurau a nodir ar gyfer y dangosydd hwn wedi cael eu diwygio'n briodol, a chawsant eu hailgyhoeddi ar 17 Tachwedd 2023. Mae newidiadau wedi'u marcio drwy'r bennod gyda (r).

dreftadaeth neu'n cymryd rhan ynddynt. Gallai hyn esbonio'r gostyngiad cyffredinol yn y dangosydd hwn rhwng y ddau gyfnod amser hyn. [r]

Oherwydd maint sampl yr Arolwg Cenedlaethol, mae hi ond yn bosibl ymchwilio i wahaniaethau rhwng tri grŵp ethnig lefel uchel. Efallai y bydd gwahaniaethau yn y grwpiau ethnig hyn nad ydynt wedi'u cofnodi yma.

**Ffigur 6.1: Canran yr oedolion sy’n mynychu neu’n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy’n ymwneud â’r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth dair gwaith y flwyddyn neu fwy, yn ôl grŵp ethnig lefel uchel, 2022-23 (r)**




Disgrifiad o Ffigur 6.1: Siart far yn dangos y dangosydd cenedlaethol ar fynychu neu gymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau sy’n ymwneud â’r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth ar gyfer tri grŵp ethnig eang. Nid oes unrhyw wahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng y grwpiau. (r)

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae oedolion Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol yn fwy tebygol o fod wedi ymweld â llyfrgell dros y flwyddyn ddiwethaf o’i gymharu â’r grŵp ethnig Gwyn: Cymreig, Seisnig, Albanaidd a Gwyddelig Gogledd Iwerddon – 37% o’i gymharu â 24%.

Roedd pobl o’r grŵp ethnig Gwyn: Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir Gwyn arall yn fwy tebygol o fod wedi ymweld â safle treftadaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Dywedodd 75% eu bod wedi ymweld â safle treftadaeth yn ystod y 12 mis blaenorol, o’i gymharu â 63% ar gyfer y grŵp Gwyn: Cymreig, Seisnig, Albanaidd a

Gwyddelig Gogledd Iwerddon. Roedd y ffigur yn 61% ar gyfer y grŵp Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol, ond nid oedd hwn yn wahaniaeth ystadegol arwyddocaol o'i gymharu â grwpiau eraill.

## Cyfranogiad plant mewn chwaraeon

Mae'r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol yn darparu data ar gyfer y dangosydd cenedlaethol ar gyfranogiad plant mewn chwaraeon. Wrth edrych ar grwpiau ethnig lefel uchel, disgyblion o grwpiau Cymysg neu Aml-ethnig oedd â'r cyfraddau uchaf o ran cymryd rhan mewn chwaraeon, gyda 43% yn cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith yr wythnos neu fwy. Disgyblion nad oeddent wedi nodi eu grŵp ethnig oedd â'r lefelau isaf o gyfranogiad chwaraeon rheolaidd, ac yna disgyblion Asiaidd, Asiaidd Cymreig ac Asiaidd Prydeinig, sef 30%.

Roedd disgyblion Asiaidd yn fwy tebygol o beidio â gwneud gweithgarwch rheolaidd (llai nag unwaith yr wythnos) o'i gymharu â'u cyfoedion o grwpiau Gwyn, Du neu Aml-ethnig.

O edrych ar grwpiau ethnig manwl, roedd amrywiaeth eang yn nifer y disgyblion Asiaidd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, yn amrywio o 22% ar gyfer disgyblion Bangladeshaidd i 38% ar gyfer disgyblion Indiaidd. Yn y grŵp ethnig Gwyn, disgyblion Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig oedd fwyaf tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith yr wythnos neu fwy, ac yna disgyblion Roma (45% a 43% yn y drefn honno). Y grŵp ethnig Caribïaidd oedd â'r ganran gyffredinol uchaf o ddisgyblion a oedd yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn aml, sef 47%.

## Ffigur 6.2: Canran y plant sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith yr wythnos neu fwy, yn ôl grŵp ethnig manwl, 2022




Disgrifiad o Ffigur 6.2: Siart far yn dangos cyfranogiad plant mewn chwaraeon rheolaidd yn ôl grwpiau ethnig manwl. Mae amrywiaeth eang rhwng grwpiau, er nad yw llawer o wahaniaethau yn arwyddocaol yn ystadegol.

Ffynhonnell: Arolwg ar Chwaraeon Ysgolion 2022

## Cyfranogiad oedolion mewn chwaraeon

Mae'r dangosydd cenedlaethol ar chwaraeon i oedolion yn ystyried a yw pobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith yr wythnos neu fwy. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae'r rhan fwyaf o'r grwpiau ethnig lefel uchel wedi gweld cynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd ers i'r data gael ei gasglu am y tro cyntaf yn 2016-17. (Nid oedd y newid ar gyfer y grŵp Gwyn: Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig yn arwyddocaol yn ystadegol.)

Yn y flwyddyn ddiweddaraf, oedolion Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol oedd â'r gyfradd uchaf o ran cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd, sef 47%. Roedd hyn yn wahaniaeth ystadegol arwyddocaol o'i gymharu â'r grŵp Gwyn: Cymreig, Seisnig, Albanaidd a Gwyddelig Gogledd Iwerddon – lle roedd 39% o oedolion yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd. Amcangyfrifwyd bod 42% o oedolion yn y grŵp ethnig Gwyn: Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir gwyn arall yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd, ond nid oedd hyn yn wahanol iawn i grwpiau eraill.

### Ffigur 6.3: Canran yr oedolion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith yr wythnos neu fwy, yn ôl grŵp ethnig, 2022-23



Disgrifiad o Ffigur 6.3: Siart far yn dangos y dangosydd cenedlaethol ar gyfranogiad rheolaidd mewn chwaraeon yn ôl grŵp ethnig lefel uchel. Oedolion Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol oedd â'r cyfranogiad mwyaf.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

# Y Gymraeg

Mae Cyfrifiad 2021 yn darparu data ar nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghymru. Defnyddir hyn i fonitro cynnydd tuag at y garreg filltir genedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Er bod cyfanswm nifer y bobl dair oed neu hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg wedi gostwng rhwng 2011 a 2021, ni welwyd hyn ar draws pob grŵp ethnig. Cynyddodd nifer y bobl dair oed neu hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg yn y grwpiau ethnig canlynol:

- Asiaidd, Asiaidd Cymreig, neu Asiaidd Prydeinig
- Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd
- Grwpiau Cymysg neu Aml-ethnig
- Grŵp ethnig arall

Roedd cyfanswm o 16,000 o siaradwyr Cymraeg yn y grwpiau hyn yn 2021, wedi codi o 11,000 yn 2011.

Roedd canran y bobl a oedd yn gallu siarad Cymraeg wedi gostwng yn y grwpiau Gwyn a Chymysg neu Aml-ethnig. Mewn cyferbyniad, bu cynnydd canrannol bach yn y grŵp ethnig Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig; yn y grŵp ethnig Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd; ac yn y grŵp ethnig Arall.

Roedd siaradwyr Cymraeg a oedd yn uniaethu â'r pedwar grŵp ethnig lleiafrifol lefel uchel yn llawer iau na siaradwyr Cymraeg Gwyn, hyd yn oed ar ôl ystyried gwahaniaethau ym mhroffil oedran y boblogaeth.

**Ffigur 6.4: Canran y boblogaeth dair oed neu hŷn sy’n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grŵp ethnig lefel uchel, 2011 a 2021**




Disgrifiad o Ffigur 6.4: Siart far yn dangos newidiadau yng nghanran y bobl sy’n gallu siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021 ar gyfer pum grŵp ethnig lefel uchel. Roedd gostyngiadau ar gyfer pobl yn y categori grwpiau Cymysg neu Aml-ethnig ac ar gyfer y grŵp Gwyn, a chynnydd ar gyfer y tri grŵp arall.

Ffynhonnell: Cyfrifiad o'r boblogaeth

O edrych ar grwpiau ethnig manwl o Gyfrifiad 2021, roedd canran y boblogaeth dair oed neu hŷn a oedd yn gallu siarad Cymraeg ar ei huchaf ymysg y grŵp ethnig Gwyn: Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig (18.9%) ac isaf ymysg y boblogaeth Roma (4.5%). Ymysg y rhai a nododd grwpiau Cymysg neu aml-ethnig, roedd canran y siaradwyr Cymraeg ar ei huchaf ymhlith y rhai a nododd ethnigrwydd Gwyn ac Asiaidd (18.0%).

## Ffigur 6.5: Canran y boblogaeth dair oed neu hŷn sy’n gallu siarad Cymraeg, yn ôl grŵp ethnig, 2021




Disgrifiad o Ffigur 6.5: Siart far yn dangos canran y bobl sy’n gallu siarad Cymraeg ar gyfer 19 grŵp ethnig. Mae’r canrannau’n amrywio o 4.5% i 18.9%.

Ffynhonnell: Cyfrifiad o'r boblogaeth

# Ffynonellau data a darllen pellach

**Arolwg Cenedlaethol Cymru**

**Arolwg ar Chwaraeon Ysgolion 2022 (Chwaraeon Cymru)**

**Cyfrifiad 2021**

# Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Awdur: Stefanie Taylor

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang: Gwlad sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud rhywbeth o’r fath wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang. Mae’r nod hwn yn cydnabod, mewn byd rhyng-gysylltiedig, gall yr hyn rydym yn ei wneud i sicrhau bod Cymru’n genedl gynaliadwy gael effeithiau cadarnhaol y tu allan i Gymru.

## Newid yn yr hinsawdd

Nod 13 o Nodau Datblygu Cynaliadwy’r Cenhedloedd Unedig yw “gweithredu ar frys i fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd a’i effeithiau”.

Mae pobl yng Nghymru yn poeni am newid yn yr hinsawdd.

Mae canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2022-23 yn dangos bod y mwyafrif helaeth (97%) o bobl Cymru o'r farn bod hinsawdd y byd yn newid. Yn 2022-23, roedd 74% o oedolion yn eithaf pryderus neu bryderus iawn am y newid yn yr hinsawdd. Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng grwpiau ethnig lefel uchel.

Yn 2022-23, roedd 56% o bobl o’r farn bod newid yn yr hinsawdd yn ganlyniad i weithgarwch dynol yn bennaf neu’n gyfan gwbl. Unwaith eto, nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng grwpiau ethnig lefel uchel.

## Ffigur 7.1: Lefel y pryder am newid yn yr hinsawdd, 2022-23




Disgrifiad o Ffigur 7.1: Siart far yn dangos lefel y pryder am newid yn yr hinsawdd yn 2022-23 ar gyfer tri grŵp ethnig lefel uchel. Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng ymatebion grwpiau ethnig.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

# Tlodi Bwyd

Mae rhai oedolion yng Nghymru yn wynebu tlodi bwyd ac yn poeni am fforddio bwyd.

Un o nodau'r Cenhedloedd Unedig, sef 'Dim Newyn' yw rhoi diwedd ar newyn, sicrhau diogelwch bwyd a gwella maeth.

Nododd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23 fod 6% o aelwydydd wedi cael bwyd o fanc bwyd neu nad oeddent, ond eu bod wedi bod eisiau hynny yn ystod y 12 mis diwethaf. Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng grwpiau ethnig.

**Ffigur 7.2: Wedi cael bwyd gan fanc bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf, 2022-23**




Disgrifiad o Ffigur 7.2: Siart far yn dangos a ydynt wedi cael bwyd gan fanc bwyd yn ystod y 12 mis diwethaf yn 2022-23 ar gyfer dau grŵp ethnig. Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng grwpiau ethnig.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Yn ôl yr arolwg hefyd, roedd 5% o oedolion Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon) yn dweud eu bod wedi mynd heb bryd o fwyd sylweddol o leiaf un diwrnod yn y pythefnos cynt. Unwaith eto, nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng grwpiau ethnig.

### Ffigur 7.3: Wedi mynd diwrnod heb bryd sylweddol yn ystod y pythefnos diwethaf, 2022-23




Disgrifiad o Ffigur 7.3: Siart far yn dangos dadansoddiad ethnigrwydd lefel uchel, yn nodi a oeddent wedi mynd diwrnod heb bryd sylweddol yn ystod y pythefnos diwethaf. Nid oedd gwahaniaeth sylweddol rhwng grwpiau ethnig a atebodd eu bod neu nad oeddent.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

## Darpariaeth brechu

Mae nod Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, sef 'Iechyd a llesiant da', yn nodi pwysigrwydd darparu mynediad at feddyginiaethau a brechlynnau fforddiadwy a hanfodol.

Cam diweddaraf rhaglen frechu COVID-19 oedd cyflwyno pigiad atgyfnerthu yn ystod gwanwyn 2023 i bawb sy'n 75 oed ac yn hŷn, y rhai sydd â system imiwnedd hynod fregus ac oedolion hŷn sy'n byw mewn cartref gofal. Roedd y nifer yn uwch yn y grwpiau ethnig Gwyn cyfun o'i gymharu â'r grwpiau Du, Asiaidd, Cymysg a grwpiau ethnig eraill cyfun. Roedd hyn yn wir ym mhob un o grwpiau a oedd yn gymwys ar

gyfer y pigiad atgyfnerthu yn y gwanwyn. Roedd bwlch o 28 pwynt canran yn y defnydd rhwng y grwpiau ethnig Gwyn (69%) a Du, Asiaidd, Cymysg ac Arall (41%).

## Cosbi plant yn gorfforol

Daeth cosbi plant yn gorfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru ar 21 Mawrth, 2022.

Gofynnwyd i rieni a'r bobl nad ydyn nhw'n rhieni am eu barn ynglŷn â smacio plant ac a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod angen gwneud hynny weithiau. Roedd yr ymatebion yn cynnwys cytuno'n gryf, tueddu i gytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, tueddu i anghytuno, ac anghytuno'n gryf. Oherwydd bod niferoedd yr ymatebion yn fach, mae anghytuno ac anghytuno'n gryf, a chytuno a chytuno'n gryf wedi cael eu cyfuno.

Roedd pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol cyfun, Gwyn (Gwyddelig, Sipsi, Teithiwr Gwyddelig neu gefndir Gwyn arall) a Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol yn fwy tebygol o anghytuno bod angen smacio plentyn weithiau (66%). Mae hyn yn cymharu â 58% o bobl o'r grŵp ethnig Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon). Nid oedd gwahaniaeth sylweddol rhwng y grwpiau ethnig lleiafrifol cyfun a'r grŵp ethnig Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd neu Wyddelig Gogledd Iwerddon) wrth edrych ar y ganran a oedd yn cytuno bod angen.

### Ffigur 7.4: A oes angen smacio plant weithiau ai peidio, 2022-23




Disgrifiad o Ffigur 7.4: Siart far yn dangos a yw oedolion yn tueddu i anghytuno neu anghytuno’n gryf yn ôl grŵp ethnig lefel uchel.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

## Ffynonellau data a darllen pellach

**Brechiadau COVID-19 yng Nghymru - adroddiad goruchwylio manwl ar gydraddoldeb (Iechyd Cyhoeddus Cymru)**

**Rhoi diwedd ar gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru**

**Cais ad-hoc am ddata Arolwg Cenedlaethol Cymru (gweler y tablau data cyfatebol)**